# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd am 14.00 ar 06 MEDI 2024, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadair); Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Paul Bevan; Ms Kate Eden; Yr Athro Simon Green (tan eitem 3.1); Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; Mr Yusuf Ibrahim, Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan (tan 3.2); Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod arbennig o'r Cyngor, i drafod denu myfyrwyr a chofrestriadau, a sefyllfa ariannol y Brifysgol.

## 2. DENU A CHOFRESTRU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Cyflwyniad gan Robin Halley, Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr.

NODWYD

1. Roedd y marchnadoedd israddedig cartref wedi perfformio'n dda, yn enwedig o gymharu â'r sector.

2. Rhoddwyd diweddariad ynglŷn â thoriad dros dro i’r systemau TG ar fore'r Clirio. Ymatebodd y staff yn gadarnhaol, ond bu’n hynod heriol ac mae’n bosib bod hyn wedi effeithio ar y ffigurau cyffredinol. Dylai'r adroddiad archwilio mewnol ar y mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn y lle cyntaf, a dylai'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad sicrhau bod unrhyw gamau a newidiadau dilynol yn cael eu hystyried.

3. Trafododd yr aelodau dargedau wedi'u dadgyfuno ar gyfer derbyn myfyrwyr ym mis Medi a mis Ionawr. Byddai hyn o gymorth o ran tryloywder y ffigurau, yn enwedig gan fod y proffil myfyrwyr a marchnadoedd targed ychydig yn wahanol ar gyfer carfan mis Ionawr.

4. Trafodwyd y newidiadau i bolisïau Addysg Uwch yn Awstralia, a'r cyfleoedd posibl i'r Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

5. Gofynnodd yr aelodau am gael trafodaeth bellach yn y Cyngor ynglŷn â pherfformiad y gwahanol adrannau, unwaith y bydd y ffigurau terfynol wedi'u cadarnhau [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]. Byddai'r strategaeth a'r adolygiad o'r portffolio yn canolbwyntio ar feysydd rhagoriaeth, a byddai'r tueddiadau recriwtio yn cael eu hadolygu i ddeall perfformiad adrannau unigol.

**3. DIWEDDARIADAU CYLLID**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio.

1 . <u>Arbedion: cynnydd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio

NODWYD

1. Amlinelliad o'r arbedion a nodwyd; pwysau costau ychwanegol a oedd wedi digwydd ers y cyfarfodydd diwethaf; a rhai o'r camau lliniaru a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau'r sylfaen gostau ac i gynorthwyo â'r llif arian parod.

2. Y prif risgiau i'r gyllideb yw cyflawni'r niferoedd myfyrwyr a'r arbedion a gytunwyd. Ar hyn o bryd mae yna risg sylweddol na fydd modd cyflawni'r swm gofynnol o arbedion. Yn ogystal, bydd unrhyw oedi wrth gyflawni'r arbedion yn creu risg ac yn cael effaith negyddol ar y llif arian parod. Oherwydd sefyllfa lle mae'r brifysgol wedi bod yn masnachu mewn diffyg am gyfnod estynedig, gostyngodd ei chyfnod hylifedd i 19 diwrnod ar 30 Ebrill 2024.

3. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni rhaglen arbedion y cynllun diswyddo gwirfoddol, benthycwyd £3m o arian parod o'r cronfeydd gwaddol fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor Buddsoddiadau ym mis Mehefin 2024. Bydd hyn yn cael ei ad-dalu dros 3 blynedd o 25/26.

4. Mae Cam 2 o'r rhaglen gwaredu asedau a gytunwyd bron wedi'i gwblhau, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y ffigurau. Mae'r Is-Ganghellor wedi adolygu'r amserlen ar gyfer yr asedau sy'n weddill, ac mae swyddogion yn edrych ar asedau pellach y gellid eu gwaredu, ond mae'r rhain yn isel eu gwerth.

5. Argymhellwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024 y dylid cynnal trafodaethau pellach gyda CCAUC ynglŷn â'r opsiynau i gael cymorth ariannol mwy hirdymor i liniaru heriau masnachu dros y 3 blynedd nesaf. Ni chytunwyd ar unrhyw gymorth hyd yma , y tu hwnt i flaendaliad a wnaed ym mis Awst, o gyllid mis Medi i fis Tachwedd. Mae Medr wedi nodi y byddent yn cytuno i drefniant tebyg, pe gofynnid amdano.

6. Rhannwyd graff â'r Cyngor yn rhoi braslun o'r sefyllfaoedd arian parod misol a ragwelir. Roedd y rhagolygon yn seiliedig ar gyflawni'r targedau o ran denu myfyrwyr a gwneud arbedion, ac ar gyflawni'r targed i gyrraedd diffyg gweithredol o £3m. Nododd yr aelodau hefyd y cyd-ddibyniaethau a'r angen i fodloni cyfamodau bancio.

7. Yn ogystal â’r risg weithredol, mae yna bwysau parhaus ar falansau arian parod prosiect cyfalaf yr Hen Goleg. Bydd anfonebau gan gontractwyr am symiau dros £1m yn cael eu talu’n fisol a bydd hawliadau gan gyllidwyr yn cael eu cyflwyno ar sail chwarterol. Bydd unrhyw oedi wrth dderbyn cyllid yn rhoi rhwymedigaethau ariannol eraill dan fwy o bwysau.

8. Trafododd yr aelodau ddadansoddiad busnes parhaus yr archwilwyr allanol. Nodwyd na fyddai'r archwilwyr yn asesu bod y brifysgol yn fusnes parhaus oni bai bod rhywbeth yn newid. Dylid drafftio cynlluniau eraill er mwyn sicrhau, pe na bai'r arbedion yn cael eu cyflawni, y gellid rhoi sicrwydd i archwilwyr allanol ac i’r banc.

9. Trafododd yr aelodau arbedion rheolaidd ac arbedion anrheolaidd a lefel yr hyder a oedd gan y Weithrediaeth i fynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol. Nodwyd bod sicrhau bod y brifysgol yn lleihau ei sylfaen staff yn hanfodol i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Yn y cyfarfod i’r holl staff, rhoddwyd amlinelliad o’r ailstrwythuro a’r achosion busnes arfaethedig yn yr hydref. Mae prosesau’n gofyn am newidiadau, yn ogystal â strwythurau. Dylai cyfathrebu clir am y diswyddiadau sydd ar y gorwel helpu i sicrhau bod staff sy'n dymuno gadael cyn i'r prosesau hyn ddechrau yn cael cyfle i adael.

10. Dros y tymor byr mae yna rai mesurau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith, megis manteisio i’r eithaf ar delerau credyd cyflenwyr a rheoli cronfeydd eraill o arian parod nad yw’n gyfalaf gweithio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r hirdymor.

11. Nodwyd na ragwelir y bydd unrhyw asedau materol yn cael eu gwerthu yn y tymor byr, er y byddai'r broses hon yn cael ei chyflymu lle bo hynny'n bosibl ac yn rhesymol.

12. Trafododd yr aelodau incwm masnachol a nodwyd botensial dysgu ar-lein a dysgu o bell. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ond cynlluniau ar gyfer y tymor canolig yw’r rhain, er y bydd yn amrywio’r ffrydiau incwm.

13. Dylid ystyried maint a ffurf y brifysgol yn y dyfodol ochr yn ochr â’r rhaglenni i gyflawni arbedion sylweddol er mwyn sicrhau bod y seilwaith a'r diwylliant yn addas i'r diben. Adroddwyd bod rhaglenni cychwynnol ar waith i sicrhau bod y brifysgol yn edrych ar ffyrdd eraill o weithio.

**PENDERFYNWYD**

14. Gofynnodd y Cyngor am gael gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â rhaglen drawsnewid y brifysgol yn ei diwrnod strategaeth nesaf [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

15. Nodwyd yr adroddiad, a chefnogwyd yr argymhellion. Cytunodd y Cyngor y dylid lansio Cynllun Diswyddo Gwirfoddol byr. Dylai'r ohebiaeth bwysleisio brys y sefyllfa, gan nodi'r trywydd yn glir tuag at raglen ailstrwythuro ym mis Hydref 2024.

2. <u>Sefyllfa Arian Parod</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio

NODWYD

1. Mae'r Brifysgol wedi cael trafodaethau â KPMG yn rhan o'r gwaith o gynllunio archwiliad cyfrifon blynyddol 2023/24. Maent wedi rhannu eu profion ar gyfer Busnes Parhaus ac egluro y byddai hyn yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2024 unwaith y bydd y ffigurau recriwtio yn glir, gan mai dyma'r risg fwyaf. Yn seiliedig ar ddadansoddiad diweddar, credir y bydd niferoedd y myfyrwyr yn cael eu cyflawni o fewn 1.2% (£700k) i'r gyllideb a osodwyd ar gyfer incwm o fyfyrwyr. Mae'r amrywiant anffafriol hwn wedi'i ychwanegu at y targed arbedion diwygiedig am y flwyddyn.

2. Awgrymwyd y dylid cychwyn sgwrs gyda Medr cyn gynted â phosibl yng nghyswllt unrhyw fenthyciadau posibl, oherwydd sefyllfa ariannol y sector yn gyffredinol. Nododd yr aelodau yr effaith posibl ar enw da'r Brifysgol yn sgil cyhoeddi'r cyfrifon.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 3. UNRHYW FATER ARALL

Trafododd yr aelodau a oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn briodol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Fodd bynnag, cytunwyd bod angen llywodraethu cryf i sicrhau craffu a thrafod priodol. Nodwyd hefyd y byddai yna sawl aelod newydd, a bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn cydweithio i gefnogi llywodraethu da a phenderfyniadau effeithiol. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor ystyried costau, ac anogodd yr aelodau i rannu trafnidiaeth, lle bynnag y bo modd.